

CERDDWCH DROS GARTREF



EICH CANLLAW CERDDDED



CERDDDWCH Y FFORDD HON I HELPŲ I DDOD Â DIGARTREFEDD I BEN



Cafodd **14,750** o bobl* eu gwneud yn ddigartref yng Nghymru y llynedd – roedd bron i draean o'r rhain yn blant. Y gaeaf hwn, bydd llawer mwy yn cael trafferth dod o hyd i le diogel, cynnes i orffwys eu pennau.

Mae'r argyfwng tai yn gwaethygu ac mae dirfawr angen newid gwirioneddol a pharhaol. Felly, gwisgwch eich esgidiau ymarfer ac ymunwch â ni ar ein taith.

Mae'n bryd Cerdded dros Gartref yng Nghymru

www.llyw.cymru/darpariaeth-llety-digartrefedd-chysgu-allan-mawrth-2024-html

CYNNWYS

04

Croeso

05

Awgrymiadau a
chyngor codi arian

07

Sut rydych yn
gwneud gwahaniaeth

10

Cysylltwch â ni

MAE EICH DIOGELWCH YN PARHAU YN FLAENORIAETH I NI

Os ydych yn cynnal taith gerdded, llenwch ffurflen asesiad risg cyflym.

DIOLCH AM GAMU YMLAEN

Mae'r canllaw hwn yn cynnwys popeth sydd ei angen arnoch i dorri'ch targedau codi arian.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni trwy ffonio

01792 483003 neu
e-bostio fundraising@
sheltercymru.org.uk

Cartref yw popeth. Ond ar hyn o bryd, mae'r argyfwng tai yn atal miloedd o bobl rhag cael lle diogel, sicr i fyw.

Drwy gamu allan gyda miloedd o bobl eraill ledled y DU rydych chi'n brwydro yn erbyn yr anghyfiawnder hwnnw – a fedrwn ni ddim diolch digon i chi!

Gallai eich codi arian fynd tuag at gefnogi

gwasanaethau sy'n newid bywydau i deuluoedd a phlant – gan alluogi ein cynghorwyr i gynnig cyngor tai arbenigol, ein cyfreithwyr i ddarparu cyngor cyfreithiol hollbwysig a'n tîm ymgyrchu i frwydro am system dai well a thecach. Mae pob cam a gymerwch yn bwysig, gan helpu i ddod â ni'n agosach at Gymru lle mae hawl pawb i gartref wedi'i warantu



Y LLWYBR AT LWYDDIANT

1. DEWISWCH DDYDIAD

Gallwch gerdded unrhyw bryd ac i unrhyw le!

2. GWAHODDWC EICH CERDDWYR

Cerddwch gyda ffrindiau, teulu, cydweithwyr neu hyd yn oed dim ond y ci. Gall eich cyd-gerddwyr gofrestru yma.

3. CADWCH EICH LLYGAID YN AGORED

Daliwch i wirio'ch e-byst am ragor o wybodaeth a chyngor.
Byddwn gyda chi bob cam o'r ffordd.

4. CYNLLUNIWC EICH LLWYBR

Gallwch gerdded am ba bynnag hir y dymunwch, lle bynnag y dymunwch.
Rydym yn argymhell lawrlwytho ap Strava i'ch helpu i'w gynllunio.

5. DECHRAU EICH CODI ARIAN

Fe welwch chi awgrymiadau codi arian ar y dudalen nesaf.
Fel ychydig o hwb cymhelliant, unwaith y byddwch wedi codi eich
£20 cyntaf gallwch hawlio crys-t Shelter Cymru am ddim.

6. LLEDAENWC Y GAIR

Byddem wrth ein bodd petae pob person sy'n cymryd rhan yn codi o leiaf £80.
Cysylltwch os oes gennych unrhyw gwestiynau am godi arian ar 01792 483003
neu e-bostiwch fundraisingsheltercymru.org.uk.

AWGRYMIADAU AR SUT I GYNYDDU EICH CODI ARIAN

01

Cwblhewch a rhannwch eich tudalen JustGiving

Mae dolen i'n gwefan JustGiving yma. Yn syml, rhowch lun proffil yno a dywedwch pam rydych chi'n cerdded.

Unwaith y byddwch wedi gwneud hynny, rhannwch eich tudalen ar Facebook, X ac Instagram, neu ble bynnag rydych chi'n cysylltu â phobl.

Beth am roi hwb i'ch codi arian trwy gyfrannu eich hun? Mae'n ffordd wych o'ch cael chi oddi ar y marc.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn i'ch cyflogwr a fyddant yn fodlon cyfrannu swm cyfatebol i'ch cyfanswm codi arian chi eich hun.

Mae'n ffordd wych o hybu rhoddion. Mwynhewch y casglu...

02

Gwleda gyda'ch ffrindiau

Cynhaliwch ginio a gofynnwch i bawb wneud cyfraniad.

Mae'n fwyd da ac yn gwmni da dros achos gwych – felly beth sydd i beidio ei hoffi?

03

Mae gofyniadau bach yn mynd yn bell

Gofynnwch i bobl gyfrannu symiau bach – fel cost eu taith i'r gwaith neu bris cinio tecawê. Gallai hyd yn oed fod yn anrheg Nadolig neu Ben-blwydd i chi eleni. Cyn i chi ei wybod, bydd eich coffrau codi arian yn dechrau pentyrru.

04

Gwisgwch wisg ffansi goch am ddiwrnod

Cael eich noddi i wisgo coch am y diwrnod, neu hyd yn oed wneud eich Cerdded Dros Gartref yn y wisg goch orau y gallwch chi ddod o hyd iddi!

05

Cynnal cwis

P'un a ydych chi wrth eich bodd gyda University Challenge neu'n dwlu ar brofion Buzzfeed, beth am gynnal cwis rhithwir cyn y digwyddiad?

I godi arian, gofynnwch i bob cystadleuydd gyfrannu £5.

MAE POB CAM YN DOD Â THEULUOEDD YN NES AT LE Y GALLANT EI ALW'N GARTREF

Y llynedd fe wnaethom helpu 22,513 o bobl a oedd mewn angen tai, ond mae llawer mwy o bobl dim yn gwybod ble i droi am gymorth: pobl sy'n byw mewn tai anniogel neu anaddas; pobl heb le parhaol i'w alw'n gartref.

Rydyn ni'n brwydro am ddyfodol lle mae gan bawb yng Nghymru gartref diogel, a gallai eich taith gerdded ddarparu cymorth a chyingor y mae mawr eu hangen i'r rhai sydd ei angen fwyaf.

Po fwyaf y byddwch yn ei godi, y mwyaf o bobl y gallwn eu helpu.

Ac mae pob ceiniog a godir yng Nghymru yn cael ei wario yng Nghymru.




“

Chwe mis yn ôl, fe chwalodd fy myd...treuliais nosweithiau di-ri yn cysgu ar y stryd, yn teimlo'n unig ac yn anobeithiol. Roedd yn teimlo fel pe bawn yn gaeth mewn cylch ymddangosiadol ddiddiwedd, heb obaith yn y golwg. Fodd bynnag, bu estyn allan at Shelter Cymru yn drobwynt—llun o obaith yn fy awr dywyllaf. Gydag un alwad ffôn yn unig cefais fy nhrin ag empathi, dealltwriaeth, a chefnogaeth ddiwyro. Rydw i wir yn credu bod eich cymorth wedi bod yn ddim llai nag achubiaeth bywyd.

Shelter Cymru Adborth Cleient

Tachwedd 2023



”

BOB 23 MUNUD, MAE PERSON ARALL YNG NGHYMURU YN DOD ATOM NI AM GYMORTH

Gall yr ansicrwydd o fod heb unman i'w alw'n gartref ddinistrio teuluoedd. Mae'r argyfwng costau byw wedi arwain at gynnydd enfawr yn nifer y bobl sy'n cysylltu. Mae ansefydlogrwydd ariannol yn golygu bod llawer mwy o bobl yn wynebu'r posibilrwydd gwirioneddol o golli eu hafan ddiogel – eu cartref.

Gallwch chi ein helpu i newid hyn.



SUT MAE EICH CEFNOGAETH YN HELPŲ



£10 Y MIS. GALLAI HYN HELPŲ RHYWUN I DDEALL EU OPSIYNAU

Gallai rhodd o £10 y mis ein helpu i ateb chwe galwad frys bob blwyddyn i'n llinell gymorth rhad ac am ddim, yn aml y man galw cyntaf ar gyfer pobl sydd mewn angen tai.



£25 Y MIS. GALLAI HYN DDARPARU CLUST I WRANDO

Gallai rhodd o £25 ddarparu sesiwn gyngor un-i-un, gan roi'r cymorth sydd ei angen ar rywun i ddod o hyd i gartref a'i gadw.



DIOLCH!

Bydd y camau yr ydych yn eu cymryd i ddod â digartrefedd i ben yn mynd yn bell.

Os oes angen unrhyw help arnoch, cysylltwch â ni.

E-bost: fundraising@sheltercymru.org.uk

Ffoniwch: 01792 483003

